Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Strategaethau effeithiol i ddysgwyr ennill medrau allweddol mewn fframweithiau cynhwyster

Mehefin 2008

Iechyd ar Waith · Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD · GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Cyd-destun | 1 |
| Diben a chwmpas yr adroddiad | 1 |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **4** |
| **Strategaethau effeithiol i ddysgwyr ennill medrau allweddol mewn fframweithiau cymhwyster** | **5** |
| Rheoli medrau allweddol | 5 |
| Ansawdd ac arfarnu'r broses o gyflwyno medrau allweddol | 7 |
| Agweddau dysgwyr at fedrau allweddol | 9 |
| Agweddau cyflogwyr at fedrau allweddol a'u cymorth ar eu cyfer | 10 |
| **Atodiadau** | |
| 1 Fframweithiau cymhwyster | |
| 2 Tablau data 1-4 | |
| 3 Astudiaethau achos | |
| **Geirfa** | |

# Cyflwyniad

## Cyd-destun

1 Yn 2004-2005, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn am gyngor ar y rhwystrau a oedd yn atal dysgwyr yn y gwaith rhag cyflawni eu fframweithiau cymhwyster (gweler Atodiad 1 am esboniad o fframweithiau cymhwyster). Canfu adroddiad Estyn mai'r prif rwystr oedd dysgwyr yn methu ennill y medrau allweddol sy'n ofynnol yn y fframweithiau.

2 Amlygodd Adroddiad Blynyddol 2005-2006 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru eto:

> 'mae'r ffaith na wnaeth dros hanner y dysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill pob un o'r cymwysterau yr oeddent yn gweithio tuag atynt yn peri pryder o hyd. Er bod hyn yn welliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nid oedd digon o ddysgwyr yn cwblhau'r medrau allweddol a'r dystysgrif dechnegol yr oedd eu hangen arnynt i ennill y fframwaith cymhwyster llawn ar gyfer Prentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) na Phrentisiaeth Fodern (PF)'.

## Diben a chwmpas yr adroddiad hwn

3 O ganlyniad, ym mis Ebrill 2006, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn wneud rhagor o waith i:

- nodi'r strategaethau y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu defnyddio i wella cyrhaeddiad dysgwyr o ran medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster;
- archwilio rhesymau darparwyr dros ddewis y dulliau hyn;
- arfarnu amgyffrediad dysgwyr o'r ffyrdd y maent yn datblygu eu medrau allweddol;
- arfarnu amgyffrediad cyflogwyr o'r ffyrdd y mae eu dysgwyr yn datblygu medrau allweddol;
- adrodd ar ba mor dda y mae'r strategaethau hyn yn gweithio o ran cynyddu nifer y dysgwyr sy'n ennill fframweithiau cymhwyster llawn;
- gwneud argymhellion i'r sector dysgu yn y gwaith i helpu codi safonau cyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglen PFS a PF; a
- gwneud argymhellion ynglŷn â sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu gwella addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn fframweithiau cymhwyster prentisiaeth.

## Methodoleg

4 Rhwng mis Mai 2006 a mis Rhagfyr 2007, ymwelodd arolygwyr ag 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys darparwyr lle canfuwyd tystiolaeth o

gyrhaeddiad da o ran medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster mewn arolygiad gan Estyn neu fod angen gwella cyrhaeddiad dysgwyr o ran eu medrau allweddol.

5 Yn eu hymweliadau cychwynnol, siaradodd arolygwyr â rheolwyr a staff er mwyn ymchwilio i'r dulliau yr oeddent yn eu defnyddio i gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr yn eu medrau allweddol a nodi unrhyw enghreifftiau o arfer dda. Cynhaliodd arolygwyr gyfweliadau â dysgwyr a'u cyflogwyr hefyd i archwilio pa mor dda yr oeddent yn deall gofynion medrau allweddol a sut cafodd y rhain eu datblygu a'u hasesu yn ystod eu rhaglen ddysgu.

6 Aeth yr arolygwyr yn ôl i ychydig dros hanner y darparwyr y gwnaethpwyd sampl ohonynt i ddechrau. Yn ystod yr ymweliadau hyn, arfarnodd arolygwyr effaith y strategaethau medrau allweddol yr oedd darparwyr wedi'u rhoi ar waith i wella cyrhaeddiad cymhwyster dysgwyr.

7 Mae adolygiad desg o adroddiadau arolygu dysgu yn y gwaith Estyn hefyd yn cyfrannu at sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'n cynnwys dadansoddiad a chymhariaeth o'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2004 a Chwefror 2008 (gweler Atodiad 2). Mae'r adroddiadau arolygu a chyhoeddiadau perthnasol eraill ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gsi.gov.uk

8 Mae nifer o astudiaethau achos o'r strategaethau a ddefnyddir gan ddarparwyr I wella medrau allweddol a chyrhaeddiad fframweithiau cymhwyster ar gael yn Atodiad 3.

## Prif ganfyddiadau

9 Er mis Mai 2006, bu gwelliant sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'r medrau allweddol, y dystysgrif dechnegol a'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) y mae angen eu hangen arnynt i ennill y fframwaith cymhwyster llawn neu PFS neu PF.

10 Yn y tabl isod, mae'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn adlewyrchu'r gwelliant yng nghyrhaeddiad dysgwyr yn y fframweithiau cymhwyster PFS neu PF yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2004 a mis Chwefror 2008. (Mae tablau yn Atodiad 2 yn dangos y graddau a ddyfarnwyd mewn meysydd dysgu ar gyfer pob un o'r cyfnodau isod.)

**2004-2008: Safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd**

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **2007-2008 (Chwefror)** | 45% | 45% | 10% | 0% | 0% |
| **2006-2007** | 38% | 27% | 18% | 18% | 0% |
| **2005-2006** | 28% | 21% | 10% | 38% | 3% |
| **2004-2005** | 6% | 25% | 47% | 22% | 0% |

11 Mae'r medrau allweddol y mae'n rhaid i ddysgwyr eu hennill ar gyfer eu fframweithiau cymhwyster, a'r lefelau y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni, yn amrywio yn ôl y sector y maent yn gweithio ynddo. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gofynion medrau allweddol ar gyfer fframweithiau cymhwyster wedi newid fel nad ydynt mor feichus ag yr oeddent yn y gorffennol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr PF.

12 Mae ffactorau eraill sydd wedi helpu gwella cyrhaeddiad fframweithiau cymhwyster yn cynnwys cael gwared ar brofion allweddol medrau allweddol a'r gwaith a wnaeth staff hyfforddi i integreiddio medrau allweddol yn CGCau a thystysgrifau technegol dysgwyr. Mae dysgwyr yn awr yn casglu llawer o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer eu portffolios medrau allweddol trwy eu gwaith bob dydd a/neu eu haseiniadau cyd-destunol.

13 Mae pob un o'r darparwyr wedi cymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddi a chynadleddau a gynlluniwyd yn dda sy'n cael eu cynnal gan Dysg. Mae'r digwyddiadau hyn, a'r cymorth un i un a ddarperir gan ymgynghorwyr Dysg, wedi gwella dealltwriaeth ac arbenigedd darparwyr mewn medrau allweddol. Mae'r hyfforddiant a ddarperir wedi cael rôl werthfawr yn egluro materion pryder a rhannu arfer dda wrth gyflwyno ac asesu medrau allweddol gyda darparwyr eraill dysgu yn y gwaith.

14 Mae'r safonau gwell mewn dysgu yn y gwaith hefyd yn ganlyniad uniongyrchol llawer o'r strategaethau effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith gan ddarparwyr i wella ansawdd, cyflwyno a chyrhaeddiad medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster. Mae darparwyr wedi gweithio'n galed i wella amgyffrediad dysgwyr a chyflogwyr o werth medrau allweddol i unigolion a'r cwmnïau y maent yn gweithio ynddynt.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 wneud yn siwr bod trefniadau contractio trylwyr ar waith gyda darparwyr dysgu yn y gwaith i sicrhau cyrhaeddiad fframweithiau cymhwyster;

A2 parhau i roi cymorth a hyfforddiant parhaus ar gyfer medrau allweddol ar lefel genedlaethol er mwyn helpu darparwyr dysgu yn y gwaith i wella ansawdd eu hyfforddiant a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n ennill fframweithiau cymhwyster; a

A3 gwella'r broses o gasglu, dadansoddi a defnyddio data i alluogi darparwyr dysgu yn y gwaith i feincnodi eu perfformiad yn gywir a nodi meysydd o'u gwaith y mae angen eu gwella.

**Dylai darparwyr dysgu yn y gwaith:**

A4 ddatblygu strategaethau ymhellach i gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr mewn medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster;

A5 gwneud yn siwr bod hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, gan gynnwys medrau allweddol, yn rhan orfodol o raglenni dysgu;

A6 gwella mynediad dysgwyr i gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);

A7 gweithio gyda chyflogwyr i nodi rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a chasglu tystiolaeth medrau allweddol yn eu gwaith bob dydd;

A8 rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a gwella eu medrau Cymraeg a dwyieithog wrth weithio ar fedrau allweddol a gwella'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny;

A9 gosod targedau heriol tymor canolig a thymor hir i ddysgwyr gwblhau medrau allweddol erbyn dyddiadau penodol trwy gydol eu cyfnod hyfforddi cyffredinol;

A10 cynyddu'r defnydd o arsylwi hyfforddiant i wella ansawdd a chysondeb cyflwyno ac asesu medrau allweddol; a

A11 dadansoddi data medrau allweddol yn drylwyr a'i feincnodi i nodi cryfderau a meysydd y mae angen eu gwella.

## Strategaethau effeithiol i ddysgwyr ennill medrau allweddol mewn fframweithiau cymhwyster

15 Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu'r strategaethau effeithiol a ddefnyddir gan y darparwyr dysgu yn y gwaith yn ein sampl i wella rheoli, ansawdd, cyflwyno a chyrhaeddiad medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster.

### Rheoli medrau allweddol

16 Mae bron pob un o'r darparwyr wedi datblygu polisïau medrau allweddol defnyddiol a chynhwysfawr neu ddogfennaeth polisi arall a llawlyfrau staff sy'n mynd i'r afael â'r broses o reoli cyflwyno medrau allweddol, gan gynnwys asesu a monitro cynnydd dysgwyr.

17 Mae pob un o'r darparwyr yn buddsoddi mewn rolau swydd newydd neu ddiwygiedig sy'n canolbwyntio ar wella cyflawniad medrau allweddol yn gyffredinol, ac yn gwneud defnydd da ohonynt. Mae gan y rhan fwyaf o'r darparwyr gydlynydd ac aseswyr medrau allweddol, 'hyrwyddwyr' medrau allweddol neu dimau bach yn y sefydliad sydd â rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y gwahanol agweddau ar gyflwyno medrau allweddol, asesu neu fonitro cynnydd dysgwyr.

18 Mae llawer o ddarparwyr wedi sefydlu targedau cyffredinol yn eu cynlluniau datblygu ansawdd ar gyfer cynnydd mewn ennill medrau allweddol a fframwaith cymhwyster. Mae ganddynt hefyd dargedau medrau allweddol ar wahân ar gyfer meysydd dysgu unigol.

19 Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn gosod targedau mesuradwy ac yn defnyddio'r cerrig milltir hyn yn dda i farnu llwyddiant neu fethiant eu strategaethau gwella. Maent yn meincnodi cyrhaeddiad mewn gwahanol feysydd dysgu yn y cwmni a gyda darparwyr eraill dysgu yn y gwaith i nodi cryfderau a meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Mae lleiafrif o ddarparwyr hefyd wedi sefydlu targedau heriol dros dro neu dymor canolig ar gyfer meysydd dysgu unigol, staff hyfforddi a dysgwyr. Mae rheolwyr yn adolygu'r rhain yn drylwyr gyda staff ar sail un i un yn rheolaidd.

20 Mae gan bob un o'r darparwyr weithdrefnau da ar gyfer olrhain cynnydd dysgwyr tuag at gyflawni eu fframweithiau cymhwyster. Mae hyn yn aml yn cynnwys un aelod o staff sy'n gyfrifol am gynnal trosolwg o gynnydd pob dysgwr tuag at ennill eu medrau allweddol a'u fframweithiau cymhwyster. Mae gan lawer o ddarparwyr systemau olrhain defnyddiol ar bapur neu ar gyfrifiadur sy'n rhoi syniad clir o gynnydd dysgwyr. Mae darparwyr yn defnyddio'r systemau hyn yn dda i nodi problemau posibl yn gynnar.

21 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dechrau gweithio ar eu cymwysterau medrau allweddol ar ddechrau eu rhaglen ac maent yn aml yn elwa ar gyfnod gorfodol o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae cyflogwyr a goruchwylwyr yn aml yn gweithio'n agos â staff hyfforddi i gynllunio'r broses o gyflwyno ac asesu medrau allweddol i fodloni anghenion penodol dysgwyr a'u gweithleoedd. Lle cynhelir hyfforddiant gorfodol i ffwrdd o'r gwaith, mae darparwyr yn cadw cofnodion presenoldeb ac yn

rhoi gwybod i gyflogwyr am absenoldebau dysgwyr ar unwaith. O ganlyniad i'r dull cydlynus hwn, mae cyrhaeddiad dysgwyr o ran medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

22 Mae'r ffordd y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn cyflwyno ac yn asesu medrau allweddol yn amrywio'n sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn gwneud cynnydd da yn integreiddio medrau allweddol i CGCau a thystysgrif dechnegol dysgwyr o ddechrau eu rhaglen ddysgu. Mae staff hyfforddi'n gweithio'n galed i nodi cyfleoedd i asesu medrau allweddol dysgwyr mewn cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn ystod eu tasgau bob dydd yn y gwaith. Hefyd, gellir croesgyfeirio gwaith a wnaed ar gyfer CGC neu dystysgrif dechnegol ym mhortffolios medrau allweddol dysgwyr. Mae'r dull hwn yn effeithiol iawn gan ei fod nid yn unig yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio tystiolaeth o'r gweithle a gweld perthnasedd medrau allweddol i'w gwaith, ond mae hefyd yn cynyddu eu cymhelliant a'r cyflymder y maent yn ennill cymwysterau medrau allweddol arno.

23 Lle bo'n anodd integreiddio medrau allweddol mewn CGC neu dystysgrif dechnegol, mae staff hyfforddi yn gweithio'n agos â chyflogwyr a goruchwylwyr y gweithle i ddatblygu aseiniadau a phrosiectau cyd-destunol addas sy'n galluogi dysgwyr i fodloni gofynion medrau allweddol a gwella eu perfformiad yn y gwaith. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ddarparwyr sy'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau Cymraeg neu ddwyieithog wrth weithio ar fedrau allweddol.

24 Mae modelau eraill o gyflwyno ac asesu medrau allweddol yn effeithiol hefyd. Er enghraifft, mewn darparwr dysgu yn y gwaith mewn coleg, mae dysgwyr peirianneg yn treulio blwyddyn yn y coleg yn amser llawn fel rhan o'u rhaglen PF. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dysgwyr yn ennill pum medr allweddol ar lefel sy'n briodol i'w fframwaith cymhwyster, neu uwchlaw hynny, cyn iddynt ddechrau hyfforddiant yn y gwaith. Mae dysgwyr yn elwa ar sesiynau wythnosol ar wahân sy'n para awr ar gyfer pob un o'r prif fedrau allweddol (Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu). Caiff dau o'r medrau allweddol ehangach (Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun a Gweithio Gydag Eraill) eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn eu rhaglen peirianneg CGC. Mae'r holl waith medrau allweddol a wna dysgwyr yn cysylltu'n dda iawn â pheirianneg ac maent yn mwynhau'r ffaith eu bod yn ennill cymwysterau medrau allweddol trwy gwblhau tasgau yn gysylltiedig â gwaith.

25 Mae darparwr arall dysgu yn y gwaith yn canolbwyntio ar gael dysgwyr i ennill y tri chymhwyster medrau allweddol ehangach yn ystod cyfnod cychwynnol o hyfforddiant 12 wythnos. Mae staff hyfforddi yn cynllunio hwn yn ofalus trwy integreiddio medrau allweddol i'r rhaglen hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith hynod arbenigol y mae'n rhaid i bob un o'r dechreuwyr ei gwblhau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, mae dysgwyr yn dechrau hyfforddiant yn y gwaith mewn gwahanol leoliadau ledled De Cymru, lle maent yn canolbwyntio ar y tri phrif fedr allweddol trwy gwblhau aseiniadau a phrosiectau yn gysylltiedig â gwaith sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu eu medrau allweddol a chasglu tystiolaeth addas.

## Ansawdd ac arfarnu'r broses o gyflwyno medrau allweddol

26 Mae'r paragraffau canlynol yn amlygu'r strategaethau y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu defnyddio i wella ansawdd ac arfarnu'r broses o gyflwyno medrau allweddol.

27 Adeg ymweliadau cychwynnol arolygwyr, roedd pob un o'r darparwyr wedi nodi bod yr angen i wella dealltwriaeth ac arbenigedd staff mewn medrau allweddol yn flaenoriaeth. Ers hynny, mae nifer gynyddol o staff wedi elwa ar eu cyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau hyfforddi a datblygu defnyddiol. O ganlyniad, mae darparwyr yn awr mewn sefyllfa llawer cryfach i roi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr i ennill eu cymwysterau medrau allweddol.

28 Yn 2006, cynhaliodd Rhaglen Cymorth Medrau Allweddol Dysg ar gyfer Dysgu yn y Gwaith arolwg i fesur lefel yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer staff dysgu yn y gwaith. Awgrymodd y dadansoddiad o'r arolwg hwn bod angen lefel uchel o hyfforddiant staff ar y sector dysgu yn y gwaith. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o sefydliadau dim ond yn rhoi hyfforddiant i'w staff hyfforddi i godi eu hymwybyddiaeth o fedrau allweddol yn hytrach na hyfforddiant ar sut i gynllunio a rheoli darpariaeth medrau allweddol.

29 Mae pob un o'r darparwyr bellach wedi cymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddi a chynadleddau a gynllunwiyd yn dda sy'n cael eu cynnal gan Dysg. Cafodd y digwyddiadau hyn, a'r cymorth un i un gan ymgynghorwyr Dysg, effaith gadarnhaol iawn ar wella dealltwriaeth ac arbenigedd darparwyr mewn medrau allweddol. Roedd gan yr hyfforddiant a ddarparwyd rôl werthfawr yn egluro materion pryder a rhannu arfer dda wrth gyflwyno ac asesu medrau allweddol ar draws y sector dysgu yn y gwaith. Mae cyrff dyfarnu hefyd wedi gwneud cyfraniad defnyddiol at gefnogi datblygu arbenigedd medrau allweddol darparwyr trwy weithio gyda staff hyfforddi i nodi cyfleoedd i integreiddio medrau allweddol mewn hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

30 Mae llawer o staff hyfforddi yn datblygu eu harbenigedd ymhellach trwy ddilyn y cymwysterau medrau allweddol eu hunain. Mae gan bron pob un o'r darparwyr aelodau o staff sy'n ymgymryd â'r Dyfarniad Datblygiad Proffesiynol Medrau Allweddol neu'r Dyfarniad Hyfforddi a Mentora.

31 Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi gwneud trefniadau da ar gyfer digwyddiadau hyfforddi mewnol sy'n cynnwys medrau allweddol. Pan fyddant yn dychwelyd i'w sefydliadau eu hunain ar ôl mynychu cyrsiau hyfforddi allanol, mae cyfranogwyr yn rhannu'r wybodaeth a'r deunyddiau a ddarparwyd yn y digwyddiadau hyn gyda'u cydweithwyr.

32 Mae nifer fach o'r darparwyr dysgu yn y gwaith yn ein sampl yn aelodau o Banel Arbenigol Medrau Allweddol Dysg. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rwydweithio â darparwyr eraill a rhannu arfer dda. Maent yn defnyddio'r profiad hwn yn dda i gynnig arbenigedd a dirnadaeth sylweddol yn eu sefydliadau eu hunain er lles dysgwyr.

33 Mae darparwyr yn adolygu eu hadnoddau dysgu ar gyfer medrau allweddol yn rheolaidd. Mae nifer gynyddol yn defnyddio adnoddau dysgu da iawn, gan gynnwys y rheiny sydd ar gael gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, y Rhaglen Cymorth Medrau Sylfaenol a chyrff dyfarnu. Wrth i'w harbenigedd gynyddu, mae llawer o staff hyfforddi hefyd yn datblygu deunyddiau dysgu da iawn eu hunain i gefnogi dysgwyr mewn meysydd fel Cymhwyso Rhif.

34 Mae bron pob un o'r darparwyr yn ein sampl wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau ac offer TGCh. Mae staff hyfforddi yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol yn hyderus mewn sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith. Mae gan lawer o ddarparwyr ystafelloedd TGCh dynodedig a digon o gyfrifiaduron i alluogi dysgwyr i wneud ymchwil annibynnol neu baratoi cyflwyniadau PowerPoint ar gyfer eu cyfoedion. Wrth weithio ar aseiniadau medrau allweddol, mae dysgwyr yn aml yn gwneud defnydd da o'r ystod eang o wybodaeth sydd ar gael ar systemau mewnrwyd eu cwmni. Caiff llawer o ddysgwyr fynediad da hefyd i liniaduron a pheiriannau argraffu cludadwy pan fydd staff hyfforddi yn ymweld â nhw yn y gwaith. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol lle mae dysgwyr yn aros yn eu gweithleoedd ar gyfer hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn hytrach na mynychu safle'r darparwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw dysgwyr sy'n cael anhawster mynychu sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith yn cael digon o fynediad i gyfleusterau TGCh.

35 Mae pob un o'r darparwyr yn cynnal ystod o gyfarfodydd staff rheolaidd sy'n canolbwyntio ar fedrau allweddol a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd safoni rhwng staff sy'n cyflwyno ac yn asesu medrau allweddol, cydlynwyr medrau allweddol a gwirwyr mewnol. Maent yn galluogi staff i rannu arfer dda a datblygu dull ar y cyd yn effeithiol ar gyfer hyrwyddo safonau uchel. Yn yr achosion gorau, caiff rheolwyr drafodaethau manwl hefyd ar sail un i un gyda staff sy'n gyfrifol am gynnydd dysgwyr mewn medrau allweddol. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn arbennig o effeithiol yn hyrwyddo cyfrifoldeb staff ar gyfer medrau allweddol a gwella cyrhaeddiad mewn fframweithiau cymhwyster.

36 Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr nifer addas o wirwyr mewnol medrau allweddol. Lle mae darparwyr wedi cyflwyno arsylwadau mewnol o hyfforddiant, mae hyn wedi helpu gwella ansawdd a chysondeb y broses o gyflwyno ac asesu medrau allweddol. Mae llawer o ddarparwyr hefyd yn holi dysgwyr am eu profiadau medrau allweddol er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

37 Mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr i gael gwybodaeth benodol am fedrau allweddol unigol ac elfennau eraill o'r fframweithiau cymhwyster. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gymharu perfformiad ar draws gwahanol feysydd dysgu, cymwysterau medrau allweddol a lefelau. Mae'r dadansoddiad hwn yn helpu darparwyr i arfarnu perfformiad a nodi meysydd y mae angen eu gwella yn llawer mwy cywir nag yn y gorffennol pan oedd dadansoddi data yn aml wedi'i gyfyngu i gwblhau fframweithiau cymhwyster llawn. Mae nifer gynyddol o ddarparwyr hefyd yn dechrau meincnodi data cyrhaeddiad â darparwyr eraill dysgu yn y gwaith.

## Agweddau dysgwyr at fedrau allweddol

38 Mae'r strategaethau a ddefnyddir gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith i wella agweddau dysgwyr at fedrau allweddol wedi bod yn arbennig o effeithiol. Mae pob un o'r darparwyr yn cyflwyno dysgwyr i'r fframweithiau cymhwyster y byddant yn gweithio tuag atynt mewn cyfweliad neu yn ystod y cyfnod sefydlu ar ddechrau eu rhaglen ddysgu.

39 Mae darparwyr yn rhoi mwy o bwyslais nag o'r blaen ar bwysigrwydd dysgwyr yn ennill fframwaith cymhwyster yn hytrach na CGC a thystysgrif dechnegol gyda medrau allweddol yn cael eu hychwanegu tuag at ddiwedd eu cyfnod hyfforddi. Lle'r oedd hyn yn digwydd, nid oedd dysgwyr yn aml yn gallu gweld perthnasedd medrau allweddol i'w gwaith neu ddeall pam yr oedd ganddynt fwy o waith i'w gwblhau cyn cyflawni eu fframwaith cymhwyster.

40 Caiff y rhan fwyaf o'r dysgwyr drosolwg clir o holl elfennau eu rhaglen ddysgu o'r dechrau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fedrau allweddol ac maent yn gwybod bod y rhain yn rhan hanfodol o'u fframwaith cymhwyster. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod pa agweddau ar fedrau allweddol y gallant eu cwblhau fel rhan o'u CGC neu ble mae angen iddynt gwblhau aseiniadau a phrosiectau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn disgrifio manteision medrau allweddol wrth wella eu bywydau bob dydd a helpu rhagolygon dyrchafiad a gyrfa.

41 Mae agweddau cadarnhaol dysgwyr at fedrau allweddol wedi cael effaith fawr ar wella eu cymhelliant i ennill eu fframwaith cymhwyster. Mae dysgwyr yn gweld bod medrau allweddol yn berthnasol iawn i'w rolau swydd. Er enghraifft, mewn un darparwr, mae'r medrau y mae dysgwyr sy'n dilyn prentisiaeth fodern mewn peirianneg yn eu datblygu'n briodol mewn Cymhwyso Rhifau wedi gwella eu gallu i gyfrif yn fwy cywir. Mae eu medrau wrth ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau hefyd wedi gwella o ganlyniad i'r medrau a ddatblygwyd wrth weithio tuag at fedrau allweddol eraill fel Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn paratoi cyflwyniadau PowerPoint da iawn y maent yn eu defnyddio mewn trafodaethau â'u cyfoedion a staff y gweithle.

42 Mae staff hyfforddi yn defnyddio asesu cychwynnol yn dda i nodi cryfderau a gwendidau dysgwyr a threfnu cymorth addas i'w helpu. Gan fod dysgwyr yn fwy ymwybodol o'r gofynion medrau allweddol nag o'r blaen a'r dystiolaeth y mae angen iddynt ei chynhyrchu ar gyfer eu portffolios medrau allweddol, maent yn aml yn cymryd cyfrifoldeb eu hunain am nodi cyfleoedd asesu addas ar ddechrau eu rhaglen ddysgu.

43 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cynhyrchu tystiolaeth medrau allweddol addas trwy gwblhau tasgau penodol yn eu rôl swydd arferol. Lle nad yw dysgwyr yn gallu casglu tystiolaeth yn y dull hwn, maent yn aml yn cwblhau aseiniadau a/neu brosiectau da iawn sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud yn dda â'r lleoliadau masnachol neu ddiwydiannol y maent yn gweithio ynddynt. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr aseiniadau hyn ac yn dangos bod eu perfformiad yn eu gwaith wedi gwella o ganlyniad.

44 Mae llawer o ddysgwyr yn nodi eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau hyn yn fawr, a gellir cynhyrchu ystod eang o dystiolaeth medrau allweddol trwy lawer ohonynt. Mewn un darparwr, fe wnaeth dysgwyr sy'n dilyn rhaglen gofal plant fwynhau'r her o osod targedau ar gyfer cwblhau prosiect yn gysylltiedig â gwaith ar agor meithrinfa i blant, a wnaeth integreiddio pob un o'r chwe medr allweddol. Cynigiodd y dysgwyr awgrymiadau defnyddiol hefyd ac fe wnaeth hyn helpu staff hyfforddi a chyflogwyr i gynllunio aseiniadau neu brosiectau addas eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae gan y ffactorau hyn rôl bwysig yn cymell dysgwyr i weithio tuag at eu cymwysterau medrau allweddol.

45 Ar ddechrau eu rhaglen, mae cynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn cynnwys targedau ar gyfer cwblhau medrau allweddol, yn ogystal â CGC a thystysgrif dechnegol. Ar sail barhaus, mae staff hyfforddi yn trafod targedau tymor byr 'tameidiog' realistig gyda dysgwyr a'u cyflogwyr sy'n eu helpu i ganolbwyntio ar gyflawni agweddau penodol ar y fframwaith cymhwyster cyn eu hadolygiad nesaf. Mae hyn yn cymell dysgwyr ac yn eu helpu i weld eu cynnydd o un adolygiad i'r llall.

46 Fodd bynnag, nid oes gan ddysgwyr dargedau tymor canolig neu dymor hir bob amser sy'n dangos pa agweddau ar eu medrau allweddol, eu tystysgrif dechnegol a'u CGC y mae angen iddynt eu cyflawni trwy gydol eu rhaglen. O ganlyniad, nid yw dysgwyr bob amser yn gwerthfawrogi'n llawn yr effaith y bydd colli targedau tymor byr yn ei gael ar eu gallu i gyflawni eu fframwaith cymhwyster o fewn graddfeydd amser cytûn.

47 Mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o'u targedau yn gyffredinol a chânt eu cymell gan yr adborth a'r cyngor llafar defnyddiol y mae staff hyfforddi yn ei roi ar sut i wella safon eu gwaith ymhellach. Yn yr achosion gorau, mae aseswyr a chydlynwyr medrau allweddol yn olrhain cyflawniadau dysgwyr yn ofalus iawn ac yn canfod problemau posibl yn gyflym.

## Agweddau cyflogwyr at fedrau allweddol a’u cymorth ar eu cyfer

48 Adeg ymweliadau cychwynnol yr arolygwyr, roedd pob un o’r darparwyr wedi cyflwyno strategaethau i wella agweddau cyflogwyr at fedrau allweddol a’u cymorth ar eu cyfer. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o gyflogwyr yn nodi bod gan y medrau allweddol broffil llawer uwch yn eu gweithle yn awr nag yn y gorffennol. Mae llawer o gyflogwyr hefyd yn nodi bod cyfranogiad dysgwyr mewn medrau allweddol wedi helpu gwella eu hunanhyder a’u galluogi i wneud cyfraniad mwy effeithiol at y cwmnïau y maent yn gweithio ynddynt.

49 Mae cyflogwyr yn gwneud defnydd da o’r taflenni gwybodaeth ysgrifenedig neu lawlyfrau cyflogwyr y mae bron pob darparwr dysgu yn y gwaith wedi’u datblygu i godi ymwybyddiaeth am faterion medrau allweddol.

50 Mae pob un o’r cyflogwyr yn ymwybodol bod medrau allweddol yn rhan hanfodol o fframweithiau cymhwyster. Bellach, mae gan gyflogwyr a goruchwylwyr gweithle ddealltwriaeth well nag yr oedd ganddynt yn y gorffennol o’r medrau allweddol y mae eu dysgwyr yn ymgymryd â nhw a’r lefelau y maent yn gweithio arnynt. Mewn rhai achosion, mae cyflogwyr wedi gwneud i’w dysgwyr ymrwymo i ymgymryd â medrau allweddol ychwanegol nad ydynt wedi’u cynnwys yn y fframwaith cymhwyster gan eu bod yn gweld y manteision clir i ddysgwyr unigol a’u cwmni.

51 Mae’r rhan fwyaf o gyflogwyr wedi llofnodi cytundebau ysgrifenedig ffurfiol gyda darparwyr sy’n amlinellu disgwyliadau a chyfrifoldebau’r naill a’r llall ar gyfer cyflwyno hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r cytundebau hyn yn ei gwneud yn glir ei bod yn orfodol i ddysgwyr fynychu sesiynau hyfforddi i ffwrdd o’r gwaith, gan gynnwys ar gyfer medrau allweddol.

52 Mae cyflogwyr yn aml yn newid patrymau sifft dysgwyr er mwyn eu galluogi i fynychu hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith. Er mwyn hwyluso presenoldeb dysgwyr mewn hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith, mae un darparwr yn rhentu swyddfa ar safle’r cyflogwr i gyflwyno hyfforddiant. Mae’r strategaeth hon yn galluogi dysgwyr i drosglwyddo medrau a enillwyd trwy hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith i sefyllfa’r gweithle yn gyflym pan fyddant yn dychwelyd i’w gweithfannau.

53 Er bod cyflogwyr mewn meysydd fel gweithgynhyrchu weithiau’n amharod i ryddhau dysgwyr o’r gwaith i fynychu hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith, mae darparwyr wedi datblygu strategaethau defnyddiol i oresgyn hyn. Er enghraifft, mae un darparwr yn cynnig cymhellion ariannol sy’n annog dysgwyr i fynychu sesiynau hyfforddi.

54 Mae staff hyfforddi hefyd wedi cyfrannu’n sylweddol at wella dealltwriaeth cyflogwyr o fedrau allweddol. Pan fyddant yn ymweld â dysgwyr yn y gwaith yn rheolaidd, maent yn monitro cynnydd dysgwyr ac yn helpu cyflogwyr i nodi eu rôl mewn datblygu medrau allweddol dysgwyr. Mae nifer gynyddol o gyflogwyr a goruchwylwyr gweithle yn gweithio’n agos gyda staff hyfforddi i archwilio rolau swydd dysgwyr. Mae hyn yn eu galluogi i nodi lle mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu medrau allweddol a chael y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer eu portffolios o weithgareddau bob dydd yn y gwaith. Mae llawer o gyflogwyr yn cylchdroi rolau swydd dysgwyr fel bod dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd asesu penodol sydd ar gael. Mae cyflogwyr yn gweithio gyda staff hyfforddi i gynllunio ymweliadau asesu â dysgwyr yn ystod sifftiau

gyda'r nos neu yn gynnar yn y bore. Lle mae staff gweithleoedd yn aseswyr cymwys, maent yn aml yn asesu dysgwyr lle bynnag y bydd cyfle addas yn codi. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd da.

55 Mae cyflogwyr yn gweithio'n agos ag aseswyr i alluogi dysgwyr i gwblhau aseiniadau neu brosiectau yn y gwaith a gynlluniwyd i'w helpu i gasglu tystiolaeth medrau allweddol, tra byddant, ar yr un pryd, yn mynd i'r afael ag anghenion penodol y cwmni. Mae cyflogwyr yn ystyried hyn yn fuddiol gan fod eu dysgwyr yn aml yn ennill medrau newydd sydd, mewn rhai achosion, yn gallu arwain at newid rolau swydd a dyrchafiad. Mewn llawer o achosion, mae cyflogwyr hefyd yn cymryd rhan pan fydd dysgwyr yn gwneud cyflwyniadau o ansawdd da am agweddau ar waith i'w cyfoedion.

## Atodiad 1

**Fframweithiau cymhwyster**

Dyma beth yr ydym yn ei olygu wrth fframwaith cymhwyster: y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC), medrau allweddol penodol a'r tystysgrifau technegol sy'n ofynnol gan y sector galwedigaethol.  Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Fodern Sylfaen (PFS) a Phrentisiaeth Fodern (PF).  Nid yw llwybrau dysgu yn y gwaith eraill, a gynlluniwyd o amgylch anghenion dysgwyr unigol, yn cynnwys fframwaith dysgu y disgwylir i ddysgwyr ei ennill.

Disgwylir i bob dysgwr ar raglenni PFS a PF gwblhau CGC penodol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant y maent yn gweithio ynddo.  Yn ychwanegol, rhaid iddynt hefyd gwblhau portffolio medrau allweddol.  Mae chwe medr allweddol, sydd i gyd ar gael ar lefelau 1, 2 a 3.  Mae'r rhan fwyaf ar gael ar lefel 4 hefyd.  Dyma'r medrau allweddol:

- Cymhwyso Rhif;
- Cyfathrebu;
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun;
- Gweithio Gydag Eraill; a
- Datrys Problemau.

## Atodiad 2

**Tabl 1: mae'n dangos amlder graddau 1 i 5 a gyflawnir ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2007 a Chwefror 2008.**

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm yr adegau y cawsant eu harolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes dysgu** | | | | | | |
| **Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal** | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 5 |
| **Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu** | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 5 |
| **Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig** | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| **Adwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid** | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| **Busnes, gweinyddu a'r gyfraith** | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| **Cyfansymiau** | 10 | 10 | 2 | 0 | 0 | 22 |
| **Canrannau** | 45% | 45% | 10% | 0% | 0% | |

Nodyn 1: mae'r graddau a ddyfernir ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn adlewyrchu cyrhaeddiad dysgwyr mewn fframweithiau cymhwyster PFS a PF, gan gynnwys medrau allweddol.

**Tabl 2: mae'n dangos amlder graddau 1 i 5 a gyflawnir ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2006 ac Awst 2007.**

| | **Gradd 1** | **Gradd 2** | **Gradd 3** | **Gradd 4** | **Gradd 5** | **Cyfanswm yr adegau y cawsant eu harolygu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes dysgu** | | | | | | |
| **Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal** | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 4 |
| **Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu** | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 8 |
| **Amaethyddiaeth** | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig** | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 |
| **Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** | 2 | 1 | 1 | 1 | 0 | 5 |
| **Gwallt a harddwch** | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Lletygarwch ac arlwyo** | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| **Adwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid** | 3 | 1 | 2 | 1 | 0 | 7 |
| **Addysg a hyfforddiant: cynorthwywyr ystafell ddosbarth** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Hamdden, teithio a thwristiaeth** | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Busnes, gweinyddu a'r gyfraith** | 5 | 1 | 1 | 4 | 0 | 11 |
| **Cyfansymiau** | 17 | 12 | 8 | 8 | 0 | 45 |
| **Canrannau** | 38% | 27% | 18% | 18% | 0% | |

Nodyn 1: mae'r graddau a ddyfernir ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn adlewyrchu cyrhaeddiad dysgwyr mewn fframweithiau cymhwyster PFS a PF, gan gynnwys medrau allweddol.

**Tabl 3: mae'n dangos amlder graddau 1 i 5 a gyflawnir ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2005 ac Awst 2006.**

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm yr adegau y cawsant eu harolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes dysgu** | | | | | | |
| **Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal** | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 3 |
| **Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu** | 1 | 3 | 0 | 2 | 0 | 6 |
| **Amaethyddiaeth** | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| **Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| **Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 |
| **Gwallt a harddwch** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Lletygarwch ac arlwyo** | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Adwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid** | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Busnes, gweinyddu a'r gyfraith** | 2 | 1 | 0 | 3 | 0 | 6 |
| **Cyfansymiau** | 8 | 6 | 3 | 11 | 1 | 29 |
| **Canrannau** | 28% | 21% | 10% | 38% | 3% | |

Nodyn 1: mae'r graddau a ddyfernir ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn adlewyrchu cyrhaeddiad dysgwyr mewn fframweithiau cymhwyster PFS a PF, gan gynnwys medrau allweddol.

**Tabl 3: mae'n dangos amlder graddau 1 i 5 a gyflawnir ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2004 ac Awst 2005.**

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Cyfanswm yr adegau y cawsant eu harolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes dysgu** | | | | | | |
| **Iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal** | 0 | 1 | 3 | 2 | 0 | 6 |
| **Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu** | 1 | 2 | 2 | 1 | 0 | 6 |
| **Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig** | 0 | 1 | 2 | 2 | 0 | 5 |
| **Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu** | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| **Gwallt a harddwch** | 0 | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 |
| **Lletygarwch ac arlwyo** | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Adwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid** | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| **Busnes, gweinyddu a'r gyfraith** | 1 | 1 | 5 | 1 | 0 | 8 |
| **Cyfansymiau** | 2 | 8 | 15 | 7 | 0 | 32 |
| **Canrannau** | 6% | 25% | 47% | 22% | 0% | |

Nodyn 1: mae'r graddau a ddyfernir ar gyfer safonau yn y meysydd dysgu a arolygwyd yn adlewyrchu cyrhaeddiad dysgwyr mewn fframweithiau cymhwyster PFS a PF, gan gynnwys medrau allweddol.

## Atodiad 3

### Astudiaethau achos

**Astudiaeth achos 1: Dechrau gweithio ar fedrau allweddol yn gynnar**

Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gweithio tuag at, ac yn ennill cymwysterau medrau allweddol ar ddechrau eu rhaglen. Roedd hyn yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd medrau allweddol i'w rôl waith. Roedd llawer o ddysgwyr yn gweithio tuag at fedrau allweddol y tu hwnt i ofynion lleiaf eu prentisiaeth. Er enghraifft, roeddent yn ennill medrau allweddol ehangach, fel Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun, yn ogystal â'r medrau allweddol sy'n ofynnol i gyflawni eu fframwaith cymhwyster.

Roedd y darparwr yn cynnig sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith wedi'u cynllunio'n dda i ddysgwyr a oedd yn eu helpu i ddatblygu medrau allweddol ochr yn ochr â'u medrau galwedigaethol. Roedd pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eu bod yn gallu rhannu profiadau dysgu gyda chydweithwyr a oedd yn gweithio mewn amgylcheddau gwahanol. Cyflawnodd rhai dysgwyr achrediad am fedrau allweddol ar lefel uwch na'r hyn a oedd yn ofynnol yn y fframwaith.

**Astudiaeth achos 2: Herio dysgwyr i gyflawni**

Roedd gan staff hyfforddi ddisgwyliadau uchel o'r hyn yr oedd dysgwyr yn gallu ei gyflawni. Roeddent yn manteisio ar bob cyfle i herio ac ymestyn dysgwyr yn dda. Roedd hyn yn helpu dysgwyr i gyflawni safonau uchel iawn yn eu rolau gwaith a'u gwaith ysgrifenedig. Yn ogystal â helpu dysgwyr i gyrraedd lefelau uchel o gymhwysedd proffesiynol, gweithiodd staff hyfforddi gyda nhw yn llwyddiannus i wella eu medrau trosglwyddadwy a'u medrau allweddol. Yn sgil hyn, fe wnaeth dysgwyr wella eu medrau cyfathrebu llafar, atalnodi a gramadeg. Cafodd y strategaethau hyn effaith sylweddol ar wella hunanhyder a chymhelliant dysgwyr i gyflawni eu fframweithiau cymhwyster.

**Astudiaeth achos 3: Integreiddio medrau allweddol yng ngwaith dysgwyr bob dydd**

Dechreuodd pob un o'r dysgwyr weithio ar fedrau allweddol ar ddechrau eu rhaglen hyfforddi. Roedd staff hyfforddi yn integreiddio medrau allweddol yn dda yn eu CGC a'u tystysgrif dechnegol ac yn annog dysgwyr i gasglu ystod o dystiolaeth portffolio sy'n digwydd yn naturiol o'r tasgau yr oeddent yn ymgymryd â nhw yn y gwaith. Lluniodd un dysgwr ganllaw defnyddiol ar bostgyfuno ar gyfer cydweithwyr a oedd yn gweithio ar eu prosiect medrau allweddol TGCh. Pan oedd yn gweithio ar ei brosiect medrau allweddol Cyfathrebu, lluniodd dysgwr arall ganllaw â lluniau a ysgrifennwyd yn dda am y gwasanaethau a gynigir i gleientiaid gan ei gwmni. Lluniodd dysgwr gweinyddu busnes sy'n gweithio mewn ysbyty gerdyn apwyntiadau cynhwysfawr a system wybodaeth ar gyfer cleifion. Mae'r ysbyty bellach yn defnyddio'r system hon i drefnu apwyntiadau cleifion.

Yn ogystal â'r medrau allweddol a nodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol, fe wnaeth llawer o ddysgwyr gweinyddu busnes ennill y medrau allweddol ehangach y mae'r dysgwyr a'u cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.  Fe wnaeth y cyflawniadau hyn alluogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a bod yn fwy effeithiol wrth weithio gyda chydweithwyr yn y gwaith a gyda chwsmeriaid.  Roedd cyrhaeddiad dysgwyr mewn fframweithiau cymhwyster yn rhagorol.

**Astudiaeth achos 4:  Nodi cyfleoedd yn y gweithle i ddatblygu ac asesu medrau allweddol**

Fe wnaeth pob un o'r dysgwyr elwa ar leoliadau gwaith o ansawdd da neu dda iawn a oedd yn cefnogi datblygiad eu medrau galwedigaethol a'u medrau allweddol. Roedd pob un o'r staff yn integreiddio medrau allweddol yn dda i waith y dysgwyr. Lle'r oedd dysgwyr yn cael anhawster yn ymdrin ag ystod y gwaith sydd ei angen i fodloni gofynion cyrff dyfarnu, gweithiodd staff hyfforddi yn agos â chyflogwyr er mwyn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr hyn gasglu'r dystiolaeth yr oedd ei hangen arnynt. Lle nad oedd modd gwneud hyn, trefnwyd i'r gweithwyr hyn gael eu hanfon dros dro at gontractwr arall a oedd yn gwneud y gwaith hwn.

**Astudiaeth achos 5:  Defnyddio hyfforddiant yn y gwaith a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i ddatblygu ac asesu medrau allweddol**

Roedd pob un o'r dysgwyr yn cael cyfleoedd da iawn i ddatblygu a gwella eu medrau allweddol yn y gweithle.  Roedd dysgwyr hefyd yn elwa ar sesiynau i ffwrdd o'r gwaith wedi'u cynllunio'n dda a oedd yn eu helpu i ddatblygu eu medrau allweddol ochr yn ochr â'u medrau nyrsio deintyddol.  Cwblhaodd dysgwyr aseiniadau manwl a oedd yn berthnasol yn alwedigaethol a oedd yn eu helpu i ddatblygu medrau allweddol yn dda yng nghyd-destun eu gwaith.  Cwblhaodd llawer o ddysgwyr fedrau allweddol ar lefel yn uwch na'r angen ar gyfer eu prentisiaeth ac ennill medrau allweddol ychwanegol nad oedd yn ofynnol fel rhan o'u fframwaith cymhwyster.

**Astudiaeth achos 6:  Defnyddio prosiectau i ddatblygu ac asesu medrau allweddol**

Cyflwynodd y darparwr y broses o gyflwyno medrau allweddol yn dda iawn.  Roedd staff hyfforddi yn integreiddio medrau allweddol ym mhob agwedd ar raglenni dysgwyr.  Roedd hyn yn helpu llawer o ddysgwyr i ennill cymwysterau medrau allweddol lefel 1 yn hytrach na chymwysterau medrau sylfaenol.  Roedd pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.  Trefnodd staff hyfforddi y digwyddiadau hyn fel prosiectau a oedd yn annog dysgwyr i ryngweithio â dysgwyr eraill ac aelodau o'r gymuned.  Cafodd hyn effaith sylweddol ar ddatblygu hunanhyder dysgwyr.  Roedd y darparwr hefyd yn gwneud defnydd ardderchog o'r gweithgareddau codi arian i ddatblygu ymwybyddiaeth entrepreneuraidd dysgwyr pan oeddent yn arfarnu llwyddiant ariannol eu tîm.  Cyfranodd cyfranogiad dysgwyr yn y prosiectau hyn yn dda at eu cyrhaeddiad mewn medrau allweddol a fframweithiau cymhwyster.

**Astudiaeth achos 7: Gosod a monitro targedau heriol**

Cytunodd pob un o'r dysgwyr, y staff hyfforddi a'r cyflogwyr ar dargedau heriol ond realistig mewn cyfarfodydd asesu rheolaidd ac aml. Gosododd llawer o ddysgwyr nodau iddyn nhw eu hunain a oedd yn ychwanegol i'r rheiny yr oedd eu hangen i gwblhau eu rhaglen hyfforddi yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd dysgwr gweinyddu busnes yn gweithio tuag at bump o gymwysterau medrau allweddol ar lefel 3 a'r medr allweddol mewn Cyfathrebu ar lefel 4, pan oedd y fframwaith cymhwyster dim ond yn gofyn am ddau fedr allweddol ar lefel 2. Roedd safon portffolios medrau allweddol dysgwyr yn uchel ac roedd dysgwyr yn cymhwyso eu medrau allweddol yn dda i agweddau eraill ar eu rhaglenni dysgu.

Roedd gosod targedau ar gyfer perfformiad staff a chyflawniadau dysgwyr yn weithgaredd allweddol ar draws y cwmni. Roedd rheolwyr yn cytuno ac yn gosod targedau strategol ar gyfer y busnes ac ar eu cyfer eu hunain a oedd yn heriol, ond eto'n realistig. Roeddent yn mynd ati'n ffurfiol i fonitro'r holl dargedau busnes a'r targedau personol yn agos ac yn arfarnu perfformiad yn erbyn amcanion penodol. Roedd rheolwyr yn adolygu ac yn dadansoddi'r targedau yr oeddent yn eu gosod gyda dysgwyr a staff yn barhaus. Roeddent yn gweithredu ar unwaith os nad oedd canlyniadau perfformiad yn unol â'r hyn a fwriadwyd. Roedd cyrhaeddiad mewn fframweithiau cymhwyster yn dda iawn.

**Astudiaeth achos 8: Olrhain cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio system 'goleuadau traffig'**

Roedd y darparwr yn defnyddio system olrhain gyfrifiadurol â chodau lliw i gofnodi cyrhaeddiad pob elfen o fedrau allweddol a chydrannau eraill o'r fframwaith cymhwyster. Roedd y cyraeddiadau hyn wedi'u cysylltu â graddfeydd amser cytûn dysgwyr ar gyfer cwblhau eu fframweithiau cymhwyster.

Lle'r oedd dysgwr ar y trywydd iawn i gwblhau mewn pryd, roedd staff hyfforddi yn defnyddio'r lliw gwyrdd i gofnodi eu cynnydd. Roedd staff hyfforddi yn defnyddio melyn i gofnodi lle'r oedd dysgwr 'mewn perygl' o gael eu gadael ar ôl a choch i roi gwybod iddynt am ddysgwyr yr oedd angen cymorth uniongyrchol arnynt i sicrhau eu bod yn cwblhau eu fframwaith cymhwyster o fewn graddfeydd amser cytûn.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Medrau sylfaenol** | Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg neu yn Saesneg a defnyddio mathemateg ar lefel sydd ei hangen i weithredu yn y gwaith ac mewn cymdeithas |
| **Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol** | Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (Cymru), sydd wedi uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru. |
| **Tystysgrif a Diploma Hyfforddi a Mentora** | Mae'r Dystysgrif lefel 3 mewn Hyfforddi a Mentora wedi'i chynllunio ar gyfer arbenigwyr medrau sylfaenol sydd ag o leiaf blwyddyn o brofiad llwyddiannus yn cyflwyno ac yn asesu un medr allweddol neu fwy. Mae ffocws y cymhwyster ar ddefnyddio hyfforddi fel cyfrwng gwella, gan helpu arbenigwyr medrau allweddol i drosglwyddo eu profiad a'u harbenigedd i eraill.<br><br>Mae'r Diploma lefel 5 mewn Hyfforddi a Mentora Rheolwyr wedi'i gynllunio i gydlynwyr a rheolwyr medrau allweddol profiadol gefnogi twf a datblygiad medrau allweddol yn weithredol yn eu sefydliad. |
| **APADGOS** | Yr Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| **Dysg** | Hyd nes yn ddiweddar, roedd Dysg yn isadran yn yr Adran Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu a dysgu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-14. Mae Dysg bellach wedi uno â'r Gangen Strategaethau Dysgu ac Addysgu newydd yn Isadran Dysgu a Datblygiad Proffesiynol APADGOS. |
| **Prentisiaethau Modern Sylfaen** | Gall dysgwyr cyflogedig gael eu hyfforddi hyd at CGC lefel 2. Mae angen iddynt hefyd gwblhau medrau allweddol a thystysgrifau technegol. |
| **Gwirio mewnol** | Gwirio neu safoni mewnol yw'r broses lle mae canolfan yn sicrhau ei bod yn gweithredu'n gyson ac yn unol â safonau cenedlaethol wrth ddehongli ac asesu'r medrau allweddol. |

| | |
|---|---|
| **Panel Arbenigol Medrau Allweddol** | Mae'r prosiect Cymorth Medrau Allweddol ar gyfer Dysgu yn y Gwaith wedi sefydlu'r Panel Arbenigol Medrau Allweddol ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, cynrychiolir 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith ar y Panel Arbenigol. Mae'r panel yn cynrychioli anghenion dysgu yn y gwaith i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a thrwy hynny'n cyfrannu at sefydlu polisi ac arfer yng Nghymru. |
| **Cymwysterau medrau allweddol** | Dyma'r medrau allweddol:<br>• Cyfathrebu;<br>• Cymhwyso Rhif; a<br>• Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.<br><br>Dyma'r medrau allweddol ehangach:<br>• Datrys Problemau;<br>• Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun; a<br>• Gweithio Gydag Eraill.<br><br>Mae'r medrau allweddol hyn ar gael o lefel 1 i lefel 4. Wrth i ddysgwyr symud trwy'r lefelau, maent yn symud o dasgau syml i dasgau mwy cymhleth. Rhaid iddynt hefyd ddangos gallu cynyddol i ddefnyddio medrau lefel uwch fel dadansoddi, arfarnu a chyfiawnhau. |
| **Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol Medrau Allweddol** | Mae'r cymhwyster lefel 5 hwn yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol o'r safonau medrau allweddol cenedlaethol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu medrau allweddol. Addaswyd y dystysgrif ar gyfer ei defnyddio yn Gymraeg ac mae'n cynnwys uned benodol mewn Medrau Allweddol a Bagloriaeth Cymru. |
| **Rhaglen Cymorth Medrau Allweddol** | Mae dwy raglen medrau allweddol, y RhCMA ar gyfer ysgolion a cholegau a'r MADYYG ar gyfer dysgu yn y gwaith. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi darpariaeth medrau allweddol ledled Cymru. |
| **Prentisiaethau Modern** | Mae'r rhain yn rhoi hyfforddiant i ddysgwyr cyflogedig i Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol lefel 3 neu'n uwch. Mae angen i'r dysgwyr hefyd gwblhau medrau allweddol a thystysgrifau technegol. |
| **CGC** | Cymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n adlewyrchu'r medrau a'r wybodaeth y mae eu hangen i wneud swydd yn effeithiol. Mae'r cymwysterau hyn wedi'u trefnu yn bum lefel yn seiliedig ar y wybodaeth a'r medrau y mae eu hangen ar gyfer swydd benodol. |